Derwen

Tîm Integredig Plant Anabl
Integrated Team for Disabled Children

# Datganiad Egwyl Fer ar Gyfer Plant Anabl a'u Teuluoedd yng Ngwynedd

Cyngor Gwynedd Council

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

## CEFNDIR

Yn dilyn dyfodiad Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu Egwyl Fer ar gyfer plant anabl. Ar Fehefin 28ain 2012 daeth Rheoliadau perthnasol i'r ddyletswydd hon yn nodi y dylai pob awdurdod yng Nghymru gyflwyno Datganiad Egwyl Fer erbyn Medi 27ain 2012 er mwyn rhoi gwybodaeth i deuluoedd pa wasanaethau sydd ar gael. Bu'r cyfnod rhwng cyflwyno'r Rheoliadau a'r dyddiad i'w cyhoeddi yn fyr ac felly ni fu'n bosib ymgynghori yn ddigonol gyda phlant anabl na'u teuluoedd. Ein bwriad yw cyflwyno'r ddogfen hon i gychwyn ac yna dilyn gydag ymgynghoriad gyda theuluoedd a'i hadolygu fel bo angen.





## BETH YW BWRIAD EGWYL FER?

Bwriad darpariaeth Egwyl Fer yw rhoi cyfle i deuluoedd wneud yr hyn hoffent ei wneud heb eu mab neu ferch anabl. Gall hyn olygu tasgau syml fel siopa am fwyd, neu fynd am dro gyda'r plant eraill, cyfle i gael penwythnos rhydd i alluogi i deulu ddal i fyny â'u cwsg, neu i fynychu achlysur arbennig.

Fel rhan o'r Egwyl Fer mae'r plentyn anabl yn cael profiadau megis dilyn gweithgareddau hamdden, mynychu grwpiau neu weithgaredd grŵp, neu gael noson oddi cartref.

## PWY SY'N GYMWYS I DDERBYN EGWYL FER?

Mae plant yn gymwys i dderbyn Egwyl Fer yng Ngwynedd os ydynt yn cyrraedd trothwy Derwen – Tîm Integredig Plant Anabl, a bod asesiad o'u hangen hwy a'u teulu yn adnabod yr angen am wasanaeth.

| **Mae Derwen yn gweithio gyda phlant anabl ble mae:-** | **Nid yw Derwen yn gweithio gyda phlant ble mae:-** |
|---|---|
| Anghenion sydd angen eu cyfarch ar hyn o bryd. | Anghenion y plentyn anabl yn cael eu cyfarch ar hyn o bryd. |
| Salwch neu gyflwr iechyd meddwl yn ogystal â'r anabledd. | Salwch neu gyflwr iechyd meddwl heb fod yna anabledd. |
| Sawl oediad datblygiadol arwyddocaol neu oediad dwys er mwyn asesu ar gyfer asesiad pellach. | Oediad mewn maes datblygiadol e.e. oediad iaith a lleferedd neu toiledu. |
| Problemau ymddygiad yn ogystal ag oediad datblygiadol arwyddocaol. | Problemau ymddygiad lle nad oes oediad datblygiadol arwyddocaol. |
| Nam synhwyraidd sylweddol e.e. clyw/golwg sydd yn amharu ar allu'r plentyn i fyw bywyd llawn. | Nam synhwyraidd e.e. clyw/ golwg sydd wedi ei drin yn llwyddiannus. |
| Plant gydag oediad datblygiadol arwyddocaol ac/neu anabledd lle nad yw gwasanaethau prif lif yn gallu cyfarfod yr anghenion arbenigol. | Oediad datblygiadol ac/neu anabledd lle mae gwasanaethau prif lif yn gallu cyfarfod yr anghenion. |
| ADHD yn ogystal ag anabledd neu oediad datblygiadol arwyddocaol. | Ganddynt ADHD heb anabledd neu oediad datblygiadol arwyddocaol. |
| Gweithiwr proffesiynol o dîm arall y mae arno angen cymorth arbenigol gan Derwen i asesu ar y cyd neu gynnig ymyrraeth. | Gwaith tîm arall (e.e. ymchwiliad amddiffyn plant) yn brif ffocws, ac nad oes angen asesiad/ymyrraeth arbenigol anabledd pellach. |

## SUT MAE PENDERFYNU AR YR ANGEN?

Gellir edrych ar ddarpariaeth Egwyl Fer dan wahanol lefelau megis lefel 1 sy’n ddarpariaeth gyffredinol neu ataliol**,** lefel 2 ble mae gwasanaeth wedi ei dargedu a lefel 3 ble mae anghenion cymhleth a dwys.

| LEFEL | ASESIAD / MYNEDIAD I WASANAETH | ENGHREIFFTIAU O WASANAETHAU |
|---|---|---|
| 1 | Gwasanaethau lle gellir cyfeirio eich hun ac nad oes asesiad o angen. | Clybiau brecwast neu ar ôl ysgol, yr Urdd, clybiau neu weithgareddau Canolfannau Hamdden. |
| 2 | Angen asesiad cychwynnol i Derwen ac yna cyfeiriad am wasanaeth trwy aelod o staff y Tîm ar sail yr asesiad. | Grwpiau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, Gweithgareddau Haf, Gweithgareddau Gwyliau, cefnogaeth i fynychu gwasanaethau cyffredinol, Diwrnodau Dathlu Teulu. |
| 3 | Angen asesiad craidd ac o bosib asesiad Egwyl Fer gynhwysol gan aelod o dîm Derwen. Cais ar sail hyn gan y gweithiwr proffesiynol i banel adnoddau. | Gwasanaeth 1 i 1, Taliadau Uniongyrchol, pecyn Gofal Parhaus, Egwyl Fer dros nos gyda Gofalwyr Maeth. |



## ENGHREIFFTIAU O WASANAETHAU EGWYL FER YNG NGWYNEDD

Mae darpariaeth Egwyl Fer oddi cartref dros nos yn brin yng Ngwynedd ar hyn o bryd ond mae cynllun ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddatblygu ysgol arbennig newydd yn ne'r Sir gyda darpariaeth Egwyl Fer preswyl ynghlwm wrth yr ysgol i'r dyfodol.

Er mwyn ceisio ymateb i'r diffyg hwn mae Gwasanaethau Cefnogol wedi eu datblygu fel prif wasanaeth Egwyl Fer o fewn y Sir.

| MATH O WASANAETH | ENGHREIFFTIAU O EGWYL FER |
|---|---|
| Cefnogaeth i fynychu gwasanaethau prif lif | Gweithiwr Cefnogol yn cynnig cefnogaeth i blentyn / person ifanc anabl i fynychu'r Urdd / Brownies / Clwb Ieuenctid tra bo angen. |
| Grwpiau / clybiau chwaraeon | Grwpiau arbennig wedi eu trefnu gan Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd neu fynediad i glybiau chwaraeon cyffredinol. |
| Clybiau Ieuenctid arbennig ar gyfer plant dros 8 oed | Clybiau yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl rhwng 8 a 18 oed i gyfarfod ffrindiau a chael amrywiaeth o weithgareddau megis :-<br>➢ Celf<br>➢ Coginio<br>➢ Chwaraeon<br>➢ Trampolinio.<br><br>Clwb Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 14 – 18 oed er mwyn datblygu sgiliau megis :-<br>➢ Trin arian<br>➢ Teithio'n annibynnol<br>➢ Coginio<br>➢ Dweud yr amser |
| Gweithgareddau Gwyliau | Gweithgareddau grŵp ar gyfer plant a phobl ifanc dros 8 yn Arfon a Dwyfor / Meirionnydd yn ystod gwyliau'r ysgol sy'n cynnig nifer o weithgareddau amrywiol a thripiau. |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau Gwyliau Haf ar gyfer plant a phobl ifanc dros 8 oed gydag anghenion iechyd dwys. | Gweithgareddau yn Ysgol Pendalar sy'n cael eu darparu ar y cyd gyda staff y Bwrdd Iechyd. |
| Diwrnodau Dathlu'r Teulu | Diwrnodau i'r teulu oll i fwynhau gweithgareddau lu gyda theuluoedd eraill. Hyn yn werthfawr o ran cyfarfod brodyr / chwiorydd a rhieni eraill i blant anabl. |
| Gwasanaeth 1 i 1 | Oriau penodedig o wasanaeth 1 i 1 neu 2 i 1 mewn rhai amgylchiadau ar gyfer rhoi cyfle i blentyn anabl o bob oed fwynhau gweithgaredd penodedig ac i'w teuluoedd gael cyfle i wneud gweithgareddau na ellir eu cyflawni gyda'r plentyn / person ifanc anabl. |
| Taliadau Uniongyrchol | Fel y gwasanaeth 1 i 1 ond fod hyn yn fodd i deulu drefnu a rheoli eu gwasanaeth eu hunain o fewn y gyllideb benodol. |
| Pecynnau Gofal Parhaus | Pecynnau gofal sy'n cael eu darparu gan staff y Bwrdd Iechyd ar gyfer plant gydag anghenion meddygol dwys yn eu cartref ond yn cael eu cyd-ariannu rhwng Derwen a'r Bwrdd Iechyd. |
| Egwyl Fer dros nos yn y cartref. | Mewn rhai amgylchiadau gellir cynnig gwasanaeth cefnogol dros nos yng nghartref plentyn i alluogi i rieni gael noson o gwsg oddi cartref. |
| Egwyl Fer gyda gofalwyr maeth. | Yng Ngwynedd mae'r ddarpariaeth hon yn brin ond darperir oddeutu 48 awr bob 7 - 8 wythnos gyda gofalwyr cyflogedig 'Amser Ni' drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Barnardo's Cymru.<br><br>Darperir gwasanaeth hefyd gan ofalwyr maeth yr awdurdod lleol. |

| | |
|---|---|
| Hosbis | Tŷ Gobaith - hosbis sy'n cynnig Egwyl Fer i blant gyda gwaeledd terfynol dros Ogledd Cymru. |

## CLUDIANT I UNRHYW DDARPARIAETH

Bydd rhieni / gofalwyr yn arferol yn cludo eu plant i unrhyw weithgaredd neu Egwyl Fer dros nos. Ble mae rhieni yn cael anhawster gwirioneddol i wneud hyn gellid cysylltu â Derwen i drafod sut i oresgyn hyn.

## GWYBODAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC ANABL

Mae CD o straeon digidol ar gael i'w benthyg i blant neu bobl ifanc anabl sy'n cael eu cyfeirio am y tro cyntaf i Wasanaeth Cefnogol gydag enghreifftiau o brofiadau plant eraill wedi eu cynnwys iddynt weld a chlywed.

Yn ogystal mae llyfryn o luniau am gynllun 'Amser Ni' ar gael.

Ar gyfer pob plentyn sy'n aros dros nos gyda gofalwyr maeth, mae'r drefn adolygu ar gyfer plant mewn llety yn cael ei gweithredu, gydag adolygiadau statudol bob chwech mis sy'n cynnwys y gofalwr maeth a'r rhiant, a'r plentyn neu'r person ifanc lle dymunir.

Drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chynnal Gofalwyr ceir cyfle hefyd i fwydo unrhyw sylwadau yn ôl i'r gwasanaeth i weithredu arnynt ble'n bosib.

## SICRHAU ANSAWDD

Gwneir pob ymdrech i sicrhau ansawdd ein darpariaeth a gwahoddwn sylwadau gan blant neu bobl ifanc anabl a'u rhieni / gofalwyr ar unrhyw adeg.

Darperir holiaduron i ofyn barn am y gweithgareddau gwyliau a'r Diwrnodau Dathlu Teulu bob amser.

## SYLWADAU GAN RIENI/GOFALWYR A STAFF

### Egwyl Fer

*"It's an absolute life-saver for me and the family. I would have had a breakdown without it. It's made a big, big difference to us".*

*"Nes i ymweld â ----------- ddoe ac o'n i'n holi sut roedd pethau'n mynd o ran Gwasanaethau Cefnogol. Dywedodd ei bod yn hapus iawn efo'r gwasanaeth a'i bod yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod wedi derbyn rhaglen am ddarpariaeth y gwyliau, galwadau ffôn yn achlysurol er mwyn holi sut mae'r gwasanaeth yn mynd, a'ch bod yn darparu 'cover' os nad yw'r Gweithiwr Cefnogol arferol ar gael. 'Dwi'n gwbod pa mor ddibynnol ar y ddarpariaeth mae'r teulu yma a dwi erioed wedi clywed hi'n siarad mor bositif am y gwasanaeth."* (Sylw gan Weithiwr Cymdeithasol).

### Diwrnod Dathlu Teulu

*"Bore ardderchog, wedi mwynhau cwrdd â phawb."*

*"Seeing my daughter enjoying bouncy castle, bubbles and face painting."*

*"Y wybodaeth a'r trefniadaeth wedi bod yn ardderchog."*

*"I don't think it needs improving."*

*"Staff yn gyfeillgar a chefnogol drwy'r bore.".*

*"We currently receive no services by choice. But feel it's important that these activity fun days are held to allow children and parents the opportunity to meet and socialise".*

*"Diolch am y gwahoddiad a'r gweithgareddau".*

### Grwpiau

*"Diolch yn fawr iawn am waith caled gwasanaethau cefnogol trwy'r flwyddyn, a bod ------------ yn cael mwynhad o'r grwpiau".*

*"We would like more group activities in Meirionnydd."*

### Gwasanaeth Cefnogol

*"The support workers do a fantastic job."*

*"Gormod o newid gweithwyr cefnogol – angen mwy o gysondeb."*

*"Sessions cancelled at short notice due to staff being unavailable."*

*"Pawb yn cydweithio fel tîm."*

**Sylwadau Gan Blant am y Grwpiau Haf**

*"My favourite activity over the summer was dancing, playing guitar and seeing all my friends and staff."*

*"Rwyf wedi mwynhau yn fawr, fy hoff weithgareddau oedd Llandudno a Haven, dwi wedi mwynhau y tripiau i gyd ac roedd y staff yn neis."*

*"My favourite activities over the summer was going on the water slides in Haven, going tobogganing and snow tubing in Llandudno, Go-Karting in Glasfryn and painting nails in Hendre. I enjoyed the groups a lot."*

*"The groups were OK. I enjoyed the football it was better than school. Next time I'd like to go to Liverpool or more trips to Llandudno."*

Pe dymunech drafod unrhyw agwedd o'r datganiad hwn ymhellach gallwch gysylltu â :-

IONA GRIFFITH – Rheolwr Gwasanaeth
DERWEN – Tîm Integredig Plant Anabl
Derwen@gwynedd.gov.uk
01286 674686